**Cyngor Gwynedd Council**

**21 Hydref 2009**

**CYNHADLEDD PWYLLGOR SAFONAU CYMRU 09**

**Adroddiad gan Sam W Soysa, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau**

**Pwrpas yr adroddiad**

1. I egluro'n fyr yr hyn a ddysgwyd wrth fynychu Cynhadledd Safonau Cymru 09.

**Cyflwyniad**

1. Cynhaliwyd "Cynhadledd Safonau Cymru 09" ar 15 Hydref 09 yng Nghaerdydd. Trefnwyd y gynhadledd gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd er budd pob pwyllgor Safonau a Moeseg yng Nghymru.

2. Amgaeir copi o Raglen y Gynhadledd er gwybodaeth.

**Yr hyn a ddysgais i'm cynorthwyo fel aelod o bwyllgor safonau**

1. Roedd cynnwys cyflwyniadau pob siaradwr cyweirnod yn berthnasol i waith ar bwyllgorau safonau a moeseg a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.

2. Mynychwyd y gweithdai canlynol. Roeddynt yn addysgiadol ac o ddefnydd i weithredu gwaith ein pwyllgor Safonau yn y dyfodol:

- **Gweithio ar draws ffiniau - Gweithredu Cod Lloegr yng Nghyd-destun Cymru** (Awdurdodau Heddlu/Pwyllgorau Safonau)
- **Datblygu Arfer gorau** (Pwyllgor Safonau a Moeseg Caerdydd)

3. y dau brif bwynt a ddysgwyd oedd:

- Fod rhaid ystyried ardrawiad Cynlluniau Corfforaethol ar wasanaethau cyhoeddus yng nghyd-destun canfyddiad y cyhoedd o **Safonau a Gwerthoedd Moesegol yr awdurdod perthnasol.**
- Mai prif 'sbardunau' ar gyfer Pwyllgor Safonau effeithiol yw :
  - Mabwysiadu 'gweledEdd' digonol
  - Bod yn rhagweithiol - drwy gefnogi aelodau etholedig (hwyluso hyfforddiant), codi materion o bryder a chynorthwyo i ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol ac uniongyrchol ymysg aelodau'r awdurdod perthnasol.

4. Rhaid dod i'r casgliad fod y gynhadledd wedi bod yn fuddiol iawn o safbwynt dod yn ymwybodol o'r arferion a'r hyfforddiant gorau yn y maes Safonau a Moeseg ymysg awdurdodau lleol.

**Argymhelliad**

1. Gofynnir i'r adroddiad gael ei nodi ar gyfer dibenion y Pwyllgor Safonau.